**LC1168**

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**The Avian Influenza (Preventive Measures) (Wales) Regulations 2005**

Diben y Rheoliadau yma yw rhoi ei effaith i Benderfyniad y Comisiwn 2005/734/EC sy'n pennu mesurau bioddiogelwch i ostwng y risg y bydd ffliw adar pathogenig iawn sy'n cael ei achosi gan feirws ffliw A is-deip H5N1 yn cael ei drosglwyddo o adar sy'n byw yn y gwyllt i ddofednod ac adar eraill mewn caethiwed ac yn darparu ar gyfer system canfod cynnar mewn ardaloedd sydd mewn perygl penodol. Cafodd y Rheoliadau eu gwneud o dan y weithdrefn weithredol am 17.05 ar 28 Hydref 2005, a daethon nhw i rym am 17.20 ar yr un diwrnod.

Mae'r Rholiadau'n rhoi swyddogaethau yn uniongyrchol i'r Gweinidog yn hytrach nag i'r Cynulliad. Roedd y diffyg dirprwyo effeithiol yn ystod y toriad ar ganol y tymor yn golygu mai dyna'r unig ffordd i sefydlu dulliau rheoli effeithiol yn ddi-oed.

**Rheol Sefydlog 11.7**
Mae'r pwynt canlynol wedi'i nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Yn uniaith Saesneg y cafodd y Rheoliadau eu gwneud. Bu'n rhaid i'r Rheoliadau gael eu gwneud ar fyrder ac felly daeth y Gweinidog i'r casgliad nad oedd yn rhesymol ymarferol eu gwneud yn ddwyieithog. [Rheol Sefydlog 11.7(viii)]

**Sylwadau**
Doedd hi ddim yn amlwg ar unwaith sut roedd y gofynion yn Erthygl 2 o Benderfyniad y Comisiwn (sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Aelod-wladwriaethau gyflwyno systemau canfod cynnar) wedi'u rhoi ar waith. Sylfaen system o'r fath yw'r fframwaith sydd wedi'i sefydlu gan y Rheoliadau yma, a gofynion rheoliad 4 yn benodol.

Yn wahanol i'r meini prawf eraill, mae'r gofyniad terfynol yn Atodiad 2 i'r Penderfyniad heb ei gynnwys yn rheoliad 4(4)(g). Yr esboniad am hyn yw bod y maen prawf yma wedi'i fodloni gan y darpariaethau sydd eisoes yn bodoli yng Ngorchymyn Clefydau Dofednod (Cymru) 2003.

**Glyn Davies AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**22 Tachwedd 2005**